Ombwdsmon
Ombudsman
Cymru • Wales

| | | | |
|---|---|---|---|
| Eich cyf: | | Gofynnwch am: | Michelle Morris |
| Ein cyf: | MAM/mm | | |
| Dyddiad: | 11 Rhagfyr 2023 | | |

Peredur Owen Griffiths
Cadeirydd, y Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

**Trwy e-bost yn unig**
SeneddCyllid@senedd.cymru

Annwyl Peredur

Cyfeiriaf at adroddiad diweddar y Pwyllgor Cyllid yn dilyn eich ystyriaeth o'n Hadroddiad a Chyfrifon Blynyddol a'n Hamcangyfrif ar gyfer 2024/25. Croesawaf y sylwadau cadarnhaol yn yr adroddiad a chefnogaeth y Pwyllgor i'r Amcangyfrif ar gyfer 2024/25, a chadarnhaf y byddaf yn ymateb yn ffurfiol i bob un o argymhellion y Pwyllgor yn y Flwyddyn Newydd.

Yn y cyfamser, roeddwn am roi diweddariad byr am ddyfarniad cyflog llywodraeth leol Cymru a Lloegr. Er na chytunodd un o'r Undebau Llafur ar y dyfarniad, cytunodd yr Undebau Llafur eraill, ac felly penderfynwyd ar y dyfarniad cyflog llywodraeth leol ym mis Tachwedd. Mae bellach wedi'i dalu i'n staff. Darparodd y dyfarniad cyflog gynnydd amrywiol, yn dibynnu ar y radd. Ar ein gradd isaf y dyfarniad oedd 8.6%, tra ar gyfer staff uwch y cynnydd oedd 3.9%. Wrth gymhwyso'r dyfarniad cyflog y cytunwyd arno i'r holl staff, mae'r cynnydd cyffredinol mewn costau cyflog tua 5.4%.

Fel y byddwch yn cofio, roedd ein cyflwyniad Cyllideb Atodol yn gynharach yn y flwyddyn yn rhagweld y gallai'r cynnydd mewn costau fod yn 7.9% a gwnaethom geisio adnoddau i dalu'r gost honno. Ymrwymodd ein cyflwyniad i drin rhan o hyn fel taliad wrth gefn. Ni fydd arnom angen y swm llawn y cytunwyd arno yn flaenorol mwyach ac felly ni fyddwn yn codi'r swm llawn. Byddwn hefyd yn cyflwyno cyllidebau atodol ar gyfer y flwyddyn gyfredol, ac ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf, i leihau ein cyllidebau yn unol â hynny. Byddwn yn cynnwys esboniad yn ein cyflwyniadau Cyllideb Atodol.

Fel y nodir uchod, byddaf yn ymateb yn llawn i holl argymhellion y Pwyllgor, ond roeddwn am roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am setliad dyfarniad cyflog Ebrill 2023.

Yn gywir



**Michelle Morris**
Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus